Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Teifi

**Llandysul**
**Ceredigion**
**SA44 4JL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Teifi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Teifi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cynradd – Cymraeg, Uwchradd: 3P – Penodedig Gymraeg |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 877 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 697 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 76 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 53 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 15.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 6.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 69.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/02/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysg arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae staff a disgyblion Ysgol Bro Teifi yn cydweithio'n agos i greu awyrgylch deuluol a chynnal ethos cynhwysol a gofalgar. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn sicrhau bod popeth sydd eu hangen arnynt o ran gofal a chefnogaeth ar gael yn ddi-rwystr. O'r dysgu sylfaen i'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn gwireddu arwyddair yr ysgol, 'Oni heuir, ni fedir', yn llwyddiannus, gan fanteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, parchus a charedig. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas dros amser o ystyried eu hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac maent yn annwyl a chroesawgar gydag ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn y chweched dosbarth yn arddangos agweddau arbennig o gadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau.

Mae'r ddarpariaeth ychwanegol a geir yn y canolfannau 'Hafan','Clwb Cwtsh' a 'Chlwb yr Enfys' yn cyfrannu'n werthfawr iawn at y gofal a'r gynhaliaeth i ddisgyblion sydd eu hangen. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion hynny'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn elwa o brofiadau eang yn yr ysgol. Mae presenoldeb disgyblion oedran cynradd yn gryf ac ar gynnydd. Serch hynny, mae presenoldeb disgyblion oedran uwchradd wedi gostwng yn ddiweddar i lefel islaw'r cyfartaledd cenedlaethol a'r ffigyrau cyfatebol mewn ysgolion tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod dda o wersi a phrofiadau dysgu diddorol sy'n adeiladu ar fedrau a gwybodaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymrwymo'n llwyr i'w dysgu ac yn cymhwyso'u medrau'n gyson. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol wedi ei chydlynu'n ddigon gofalus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n ddiwyd i greu ymdeimlad cryf o waith tîm ac mae'n cyfleu ei weledigaeth yn llwyddiannus. Mae'n arweinydd angerddol sydd am sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o'r ansawdd orau wedi'i seilio'n gadarn ar werthoedd craidd cytûn. Mae'n gosod a chyfleu disgwyliadau uchel i holl gymuned yr ysgol ac yn cael ei gefnogi'n werthfawr gan weddill yr uwch dîm arwain. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella o ganlyniad i weithgarwch hunanwerthuso buddiol. Er hynny, nid ydynt bob amser yn ffocysu'n ddigon pendant ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion yn eu medrau dros amser.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Sicrhau darpariaeth gydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol

A2 Gwella presenoldeb disgyblion oedran uwchradd

A3 Miniogi gweithgareddau hunanwerthuso i ganolbwyntio’n well ar effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda ac maent yn barchus a chwrtais tuag at oedolion a’u cyfoedion. Maent yn cyrraedd yn brydlon i’w gwersi, yn setlo’n gyflym ac yn barod i weithio. O’r dosbarthiadau dysgu sylfaen i fyny, mae llawer yn dangos brwdfrydedd dros eu dysgu gan ganolbwyntio’n dda am gyfnodau priodol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch a balchder at eu gwaith ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus yn eu llyfrau. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ystyried eu hoed a’u gallu. Mewn ychydig o achosion lle mae’r addysgu’n gryf, maent yn gwneud cynnydd sy’n nodedig uwch na’r disgwyl ar gyfer eu hoed a’u gallu. Yn yr ychydig achosion ble mae’r addysgu yn llai effeithiol, maent yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae bron bob disgybl yn y chweched dosbarth yn arddangos agweddau hynod o gadarnhaol ac aeddfed tuag at eu dysgu a bywyd yr ysgol. Maent yn adalw gwaith blaenorol yn dda ac yn cymhwyso hynny i waith newydd gan ymateb a chyfrannu’n huawdl yn y dosbarth.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal perthynas waith gadarnhaol â disgyblion, sy’n cyfrannu’n werthfawr at ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Mae athrawon dosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau ymarferol sy’n sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddarganfod a dysgu drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae llawer o’r disgyblion hyn yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu yn briodol ac yn cyfrannu at ddewis yr hyn maent am ei ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin medrau llafar disgyblion yn llwyddiannus trwy ddefnyddio terminoleg a geirfa gywir er mwyn hyrwyddo’r Gymraeg a chefnogi

disgyblion. Yn ogystal, maent yn rhoi cyfarwyddiadau pwyllog a chlir sy’n galluogi disgyblion i gwblhau tasgau’n llwyddiannus. Mae’r athrawon hyn yn defnyddio cwestiynau pwrpasol er mwyn helpu disgyblion i adalw eu gwybodaeth flaenorol. Pan mae’n briodol, maent yn cylchu’r dosbarth er mwyn gwirio’r dysgu ac yn herio a chefnogi disgyblion yn effeithiol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod dda o wersi a phrofiadau dysgu diddorol sy’n adeiladu ar fedrau a gwybodaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymrwymo’n llwyr i’w dysgu ac yn cymhwyso’u medrau’n gyson. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o adnoddau gweledol a chlywedol er mwyn sbarduno trafodaethau yn effeithiol ac i danio diddordeb a dychymyg disgyblion. Maent yn sicrhau bod cyflymder y wers yn addas i’r dysgu ac yn addasu’r ddarpariaeth yn llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion bob disgybl.

Yn yr ychydig o wersi ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn, mae athrawon yn cynllunio’n fedrus i sbarduno disgyblion a datblygu eu medrau a’u dealltwriaeth yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o ran cyflawniad disgyblion ac yn eu holi’n dreiddgar er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a’u medrau meddwl yn hynod lwyddiannus. Yn ogystal, maent yn defnyddio diddordebau a phrofiadau blaenorol disgyblion yn grefftus i’w hannog i roi o’u gorau. Mae’r athrawon hyn yn adolygu cynnydd y disgyblion yn rheolaidd trwy gydol y wers ac yn rhannu esiamplau da er mwyn eu cefnogi i addasu’u gwaith i safon uchel.

Yn yr ychydig o wersi llai effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Yn aml yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rôl lawn yn eu dysgu sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio’n annibynnol. Nid ydynt bob tro’n cynllunio’n ddigon bwriadus er mwyn ymestyn yr holl ddisgyblion hyd eithaf eu gallu ac ennyn eu diddordeb. Maent yn tueddu i or-gyfarwyddo’r dysgu ac nid ydynt yn holi disgyblion yn ddigon pwrpasol er mwyn ymestyn eu hymatebion. Yn aml, nid yw athrawon yn y gwersi hyn yn gosod disgwyliadau digon uchel o ran cyflawniad disgyblion.

Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar buddiol a pherthnasol i ddisgyblion. Mae hyn yn eu cefnogi i wella’u gwaith a datblygu’r dysgu yn y fan a’r lle yn llwyddiannus. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion sy’n eu galluogi i gyfoethogi cynnwys ac ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Rhoddir sylw buddiol i wallau sillafu a gramadeg gan ddefnyddio cod marcio cyffredin. Er hyn, nid yw’r sylwadau ysgrifenedig bob tro’n ddigon penodol, amserol na miniog i arwain disgyblion i wella eu gwaith.

Mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm sy’n cynnig amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog i’w disgyblion ar draws yr ystod oedran. Mae’r profiadau amrywiol hyn yn cefnogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol Gymreig disgyblion o fewn y sesiynau dysgu yn ogystal â mewn rhaglen addas o weithgareddau allgyrsiol. Gweithia’r ysgol yn effeithiol gydag amrediad addas o bartneriaid yn yr ardal leol i wireddu ei gweledigaeth o’r cwricwlwm.

Mae gweledigaeth gadarn gan yr ysgol o sicrhau awyrgylch diogel a chefnogol sy’n caniatáu i’w disgyblion ddatblygu’n  unigolion iach a hyderus fydd yn barod i fod yn aelodau gwerthfawr o’u cymdeithas. Mae hyn yn cael ei amlygu’n effeithiol yn y

profiadau dysgu y mae'r disgyblion o'r dysgu sylfaen hyd at Flwyddyn 13 yn elwa'n gadarn ohonynt.

**Ciplun – darparu cwricwlwm Iechyd a Lles adlewyrchol a phwrpasol**

Mae'r ddarpariaeth Iechyd a Lles yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu'n effeithiol ar eu dysgu. Mae arweinwyr yn gwerthuso'r ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn drylwyr i sicrhau cwricwlwm Iechyd a Lles sydd yn adlewyrchol, amserol ac yn perthyn i Ysgol Bro Teifi. Mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau amrywiol yn cael ei chyflwyno mewn dull sy'n addas i oedran. Gweir defnydd pwrpasol o asiantaethau allanol yn amserol a chyflwynir sesiynau mewnol ar faterion sy'n codi fel troseddau, iechyd meddwl a pherthnasoedd iach. Mae hyn yn sicrhau bod ymwybyddiaeth disgyblion o ymddygiad parchus, lles meddyliol a sut i wneud dewisiadau doeth yn cael ei meithrin yn bwrpasol.

Yn gyffredinol, mae ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau. At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn cael ei chynllunio'n ddigon cydlynus na phwrpasol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran cynradd yn gwrando'n dda ar yr athro ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ddiymdroi. Maent yn cyfrannu'n synhwyrol a phwrpasol i drafodaethau ac yn myfyrio ar eu dysgu yn dda, gan gynnig sylwadau ac atebion yn fedrus. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn siaradwyr hyderus sy'n defnyddio ystod dda o eirfa, cystrawen gywir a thafodiaith naturiol yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llafar. Mae llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn gwrando'n astud ar yr athro yn ogystal â chyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer yn siarad yn aeddfed ac yn defnyddio Cymraeg gyfoethog mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn mynegi eu barn yn eglur gan ddefnyddio rhesymau addas, gydag ychydig yn gwneud hyn yn effeithiol iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn dangos brwdfrydedd tuag at ddarllen ac yn barod i drafod testunau, gan fynegi barnau yn briodol. Wrth i'w medrau darllen ddatblygu, maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i gywain a dehongli testunau amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn defnyddio eu medrau darllen yn addas yn y ddwy iaith i gywain gwybodaeth ac adnabod ffeithiau. Pan gânt y cyfle, maent yn darllen ar goedd yn hyderus. Mae ychydig o ddisgyblion yn llunio casgliadau effeithiol gan ddarllen ystyr sydd ymhlyg yn y testun yn llwyddiannus. Prin yw cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu uwch fedrau darllen y tu allan i wersi iaith. Nid yw hyn wedi ei gynllunio'n ddigon strategol i sicrhau bod cyfleoedd addas dros amser ac ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion dysgu sylfaen yn datblygu'n gadarn. O oed cynnar, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau modur mân yn effeithiol wrth greu marciau mewn amrywiol ffyrdd. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, maent yn ysgrifennu testunau perswadiol yn effeithiol ac adolygiadau difyr o lyfrau maent wedi eu darllen. Erbyn diwedd yr oedran cynradd, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod dda o ffurfiau gwahanol yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau'n gynyddol hyderus gan ddefnyddio ystod eang o

eirfa a gramadeg gywir. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn ysgrifennu'n estynedig yn llwyddiannus. Maent yn trefnu eu gwaith yn baragraffau synhwyrol ac yn ysgrifennu'n gydlynus yn y Gymraeg. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn hyderus yn y Saesneg. Fodd bynnag, mae ychydig yn gwneud camgymeriadau esgeulus yn eu gwaith yn y ddwy iaith trwy gamsillafu, brawddegu'n drwsgl a chystrawennu'n anghywir.

Ar draws yr ysgol a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn. O oedran cynnar, maent yn caffael medrau rhifedd pwrpasol. Wrth i fedrau disgyblion aeddfedu, maent yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o werth lle ac yn gwneud defnydd da o'r pedair rheol rhif. Erbyn Cyfnod Allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Mewn pynciau y tu allan i fathemateg, mae llawer yn cymhwyso eu medrau'n briodol i gyd-destunau newydd yn eu gwersi technoleg bwyd, gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Serch hynny, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd wedi eu cynllunio'n ddigon pwrpasol a chydlynus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus o ganlyniad i gyfleoedd gwerthfawr ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn cyfarwyddo tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus, er enghraifft i'w symud at ddewis o ddeunyddiau addas i greu blanced i ddraenog yn eu gwaith ar gysgaduriaid. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio'u medrau digidol i gofnodi a dadansoddi cyfenwau teithwyr ar y Mimosa ar daenlen. Mae'r disgyblion o oedran uwchradd yn datblygu medrau digidol yn hyderus trwy gynhyrchu perfformiadau drama mewn fideo a chreu cylchgronau a hysbysebion proffesiynol iawn. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae medrau corfforol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ystod oedran. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau fel sesiynau dawns a yoga sy'n cynyddu eu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymarfer corff. Mae llawer o ddisgyblion oedran uwchradd yn frwdfrydig am y gweithgarwch corfforol a gynigir, gan gynnwys y gwersi addysg gorfforol, defnydd o'r ystafell ffitrwydd ac ymarferion chwaraeon eraill. Mae llawer o disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau creadigol ar draws yr ysgol.

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff a disgyblion yn cydweithio'n agos i gynnal ethos gofalgar ac awyrgylch deuluol yn yr ysgol ble mae lles disgyblion ar frig blaenoriaethau pawb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at ei gilydd a staff ac maent yn annwyl a chroesawgar wrth sgwrsio ag ymwelwyr. Mae'r ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu hysgol yn amlwg ymysg y disgyblion.

Mae gan arweinwyr wybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ac maent yn ei defnyddio'n gywrain i fonitro lles o ddydd i ddydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael mynediad at ofal lles yn amserol ac yn ddi-rwystr.

Mae staff yn yr 'Hafan' yn cynnig gofal gwerthfawr iawn i ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth emosiynol mewn gofod tawel a diogel. Yma, mae disgyblion yn gallu siarad â'r staff gofalgar ac mae cyfle iddynt gael cymorth gydag unrhyw waith sy'n peri pryder iddynt. Mae'r ddarpariaeth yn y 'Clwb Cwtsh' a 'Chlwb yr Enfys' yn

allweddol wrth feithrin medrau cymdeithasol disgyblion sydd â rhai o’r anghenion mwyaf dwys er mwyn eu cefnogi i bontio’n raddol i wersi prif lif. Mae arweinwyr bugeiliol yn gweithio’n ddiflino gyda nifer o bartneriaid allanol i gefnogi anghenion lles disgyblion.

Mae arweinwyr, gyda mewnbwn rhanddeiliaid, wedi mireinio’r polisi ymddygiad yn ddiweddar. Mae’r gweithdrefnau’n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad yr ychydig iawn o ddisgyblion oed uwchradd sy’n cael anawsterau wrth reoli eu hymddygiad. Mae’r ‘Groesffordd’ yn lleoliad pwrpasol i ddisgyblion gael cymorth i reoleiddio eu hymddygiad a’u paratoi ar gyfer dychwelyd i’w gwersi. Trwy’r weledigaeth ysgol-gyfan a’r gwerthoedd craidd, mae staff yn hyrwyddo a gwobrwyo ymddygiad da yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn i fonitro a thracio presenoldeb a phrydlondeb. Mae presenoldeb disgyblion oed cynradd wedi gwella’n gynyddol dros amser ers y pandemig. Eleni hyd yma, mae lefelau presenoldeb ar draws yr oedrannau yn cymharu’n well â’r un cyfnod yn 2023-2024. Er hyn, roedd gostyngiad yn lefelau presenoldeb disgyblion oed uwchradd yn 2023-2024 i lefel islaw’r cyfartaledd cenedlaethol a’r ffigyrau cyfatebol mewn ysgolion tebyg.

Trwy amrywiaeth o gyfleoedd, mae’r ysgol yn darparu arweiniad gyrfaoedd ac addysg byd gwaith cryf i ddisgyblion hŷn yr ysgol wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig am eu dyfodol. Mae’r arweiniad i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 9 a disgyblion y chweched dosbarth i ddewis eu llwybrau dysgu yn gadarn. Mae trefniadau pontio lles yn effeithiol wrth i ddisgyblion drosglwyddo i’r dosbarth meithrin ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae’r ysgol wedi trosglwyddo’n amserol i ofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae disgyblion sydd ag ADY yn elwa o ddarpariaeth gref ac awyrgylch meithringar. Mae’r cydlynydd ADY yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn asesu’r anghenion yn ôl y galw cyn darparu cymorth pwrpasol iddynt. Mae tîm ymroddgar o staff yn darparu rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae Senedd yr ysgol yn weithgar ac yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn llywio penderfyniadau am ddyfodol yr ysgol. Ceir fforymau defnyddiol, fel y Fforwm Cydraddoldeb a Llesiant, sy’n gwneud gwaith buddiol er mwyn hyrwyddo lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae mwyafrif disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu eu medrau arwain yn briodol wrth gydlynu’r fforymau a’r Senedd.

## Arwain a gwella

Ers ei benodi, mae’r pennaeth newydd wedi gweithio’n ddiflino i greu ymdeimlad cryf o waith tîm ac i gyfleu ei weledigaeth. Mae’n arweinydd angerddol sydd am sicrhau bod disgyblion Ysgol Bro Teifi yn derbyn addysg o’r ansawdd orau wedi’i seilio'n gadarn ar werthoedd craidd cytûn. Mae’n gosod a chyfleu disgwyliadau uchel i holl gymuned yr ysgol. Wrth i ddisgyblion ddatblygu’n gynyddol o’r dysgu sylfaen i’r chweched dosbarth, maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, ‘Oni heuir, ni fedir’, yn llwyddiannus gan ddatblygu’n ddinasyddion cyfrifol, parchus a charedig.

Mae’r pennaeth wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn synhwyrol er mwyn rhoi ffocws cadarn ar wireddu ei weledigaeth a blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol. Cydweithia’r Tim Arwain yn glòs i gyflawni eu dyletswyddau. Maent yn ymrwymedig i’r newidiadau a wnaethpwyd ac yn gweithio’n ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae arweinwyr a staff yn cynllunio’n fwriadus i fodloni nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; er enghraifft, mae staff yn hybu’r Gymraeg a Chymreictod yn hynod o lwyddiannus. Datblygant falchder disgyblion at eu hiaith, eu hunaniaeth a’u treftadaeth yn gelfydd. Yn ogystal, maent wedi datblygu profiadau dysgu cyfoethog sy’n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion iau'r ysgol. Fodd bynnag, mae’r cynllunio cydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol yn llai datblygedig.

Mae’r pennaeth wedi addasu a grymuso strwythurau’r ysgol yn synhwyrol i gynyddu atebolrwydd a chefnogi a datblygu gwaith arweinwyr canol. Mae cyfarfodydd rheolaeth llinell rheolaidd yn darparu cyfleoedd buddiol i arweinwyr drafod materion pwysig. O ganlyniad, mae arweinwyr canol yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o’u rolau.

Mae gan yr ysgol galendr clir o weithgareddau sicrhau ansawdd pwrpasol. Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys cynnal ‘ffeiriau craffu ar lyfrau’ ysgol gyfan defnyddiol ac ymweliadau â gwersi. Yn gyffredinol, mae gan lawer o arweinwyr canol adnabyddiaeth addas o’r cryfderau ac agweddau i’w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Er bod cyfleoedd iddynt gyfrannu’n fuddiol at rai gweithgareddau sicrhau ansawdd, nid ydynt bob amser yn ffocysu’n ddigon pendant ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion yn eu medrau dros amser. O ganlyniad, nid yw’r cynllunio yn yr achosion hyn i sicrhau gwelliannau yn ddigon cydlynus a systematig.

Mae’r llywodraethwyr yn angerddol dros lwyddiant yr ysgol a’i phwysigrwydd o fewn ei chymuned. Maent yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn briodol ac yn herio arweinwyr ar nifer o feysydd pwysig. Mae gan arweinwyr gynlluniau pendant i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion a’u teuluoedd. Er enghraifft, maent wedi addasu’r polisi gwisg ysgol i leihau cost i deuluoedd a chyfrannu at gostau ymweliadau addysgol.

Dros amser, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig o waith yr ysgol, fel datblygu’r ddarpariaeth ar gyfer lles a chefnogi ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael yr un effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb i ddisgyblion oedran uwchradd.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad addas. Mae amcanion staff yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r ysgol a chyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys sesiynau addysgeg gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o strategaethau defnyddiol a rhannu arferion da. Yn ogystal, mae cyfleoedd buddiol i rwydweithio ag ysgolion eraill a mynychu cyrsiau penodol.

Mewn ymateb i farn rhieni, mae’r pennaeth wedi cryfhau’r trefniadau cyfathrebu. Mae negeseuon yn cael eu rhannu’n bwrpasol trwy lwyfannau digidol yr ysgol ac mae

cylchlythyr deniadol, ‘Dolen’, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ddysgu a llwyddiannau disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2025